

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A479 (CWM-DU, TRETŴR A PHARC GLAN-WYSG, POWYS) (FFORDD GYFYNGEDIG, TERFYNAU CYFLYMDER 30 MYA, 40 MYA A 50 MYA) 202-

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gosod terfynau cyflymder amrywiol ar ddarnau o Gefnffordd yr A479.

Yn dilyn Adolygiad Terfyn Cyflymder, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y dylai'r terfyn cyflymder drwy bentref Tretŵr fod yn 30 mya. Bydd y Gorchymyn arfaethedig felly yn gosod terfyn cyflymder 30 mya drwy bentref Tretŵr ac yn dirymu'r Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Tretŵr a Chwm-du, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1996 (O.S. 1996/1574) presennol. Bydd hyn yn sicrhau bod y terfyn cyflymder 30 mya mewn grym, yn rhannol yn rhinwedd goleuadau stryd (Ffordd Gyfyngedig) ac yn rhannol yn rhinwedd y Gorchymyn hwn ym mhob pen o'r pentref lle nad oes statws ffordd gyfyngedig. Bydd hefyd yn cadw'r terfyn cyflymder 40 mya drwy bentref Cwm-du gyda disgrifiad diwygiedig yn y Gorchymyn i gyd-fynd â'r arwyddion presennol, a bydd yn gosod terfyn cyflymder 50 mya wrth ddynesu at bentref Tretŵr o gyfeiriad y de o'i chyffordd â'r A40 ym Mharc Glan-wysg.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig hefyd yn ffurfioli'r terfyn cyflymder 30 mya sydd mewn grym drwy bentref Tretŵr yn dilyn gwaith gwella systemau draenio dwfn yn y pentref, a osodwyd yn fwyaf diweddar yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Parc Glan-wysg i Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2022 (O.S. 2022/173 (Cy. 57)).

Ar sail diogelwch ar y ffordd, yn sgil natur droellog y ffordd wrth ddynesu at bentref Tretŵr o gyfeiriad y de, sydd â sawl mynedfa i gaeau amaethyddol ac is-ffyrdd ymyl oddi ar y gefnffordd lle cyfyngir ar yr hyn y gellir ei weld neu y'i rhwystrir, cynigir hefyd gyflwyno terfyn cyflymder 50 mya i ddisodli'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol presennol.

Mae Gorchymyn dros dro (Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Glan-wysg i Dretŵr, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2021) (O.S. 2021/1044 (Cy. 245)) ar waith ar hyn o bryd yn y lleoliad uchod a bydd yn cael ei ddirymu gan Orchymyn Dirymu ar wahân a fydd yn cael ei wneud ar yr un pryd â'r Gorchymyn hwn. Bydd cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya yn annog gyrwyr i ostwng eu cyflymder cyn y terfyn cyflymder 30 mya drwy bentref Tretŵr ei hun.

THE A479 TRUNK ROAD (CWMDU, TRETOWER AND GLANUSK PARK, POWYS) (RESTRICTED ROAD, 30 MPH, 40 MPH AND 50 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is required in order to impose various speed limits on lengths of the A479 Trunk Road.

Further to a Speed Limit Review, the Welsh Ministers have determined that the speed limit through the village of Tretower should be 30 mph. The proposed Order will therefore impose a 30 mph speed limit through the village of Tretower and revoke the existing A479 Trunk Road (Tretower and Cwmdu, Powys) (40 mph Speed Limit) Order 1996 (S.I. 1996/1574). This will ensure that the speed limit of 30 mph will be in force, partly by virtue of street lighting (Restricted Road) and partly by virtue of this Order at either end of the village where there is no restricted road status. It will also retain the 40 mph speed limit through the village of Cwmdu with an amended description within the Order to match the current signage, and will impose a 50 mph speed limit on the southern approach to the village of Tretower from its junction with the A40 at Glanusk Park.

The proposed Order will also formalise the 30 mph speed limit in force through the village of Tretower following deep drainage improvement works in the village, most recently imposed by virtue of the A479 Trunk Road (Glanusk Park to Llyswen, Powys) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2022 (S.I. 2022/173 (W. 57)).

On the grounds of road safety, due to the tortuous nature of the road on the southern approach to the village of Tretower, with numerous agricultural fields and minor side road accesses off the trunk road with limited or hindered visibility, it is also proposed to introduce a 50 mph speed limit to replace the existing National Speed Limit.

A temporary Order (The A479 Trunk Road (Glanusk Park to Tretower, Powys) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2021) (S.I. 2021/1044 (W. 245)) is currently in place at the above location and will be revoked in a separate Revocation Order to be made simultaneously with this one. The introduction of the 50 mph speed limit will encourage drivers to lower their speed prior to the 30 mph speed limit through Tretower village itself.

